

Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

Bydd aelodau'r eglwys yn Neiniolen yn cynnal eu Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn Ebeneser, am 6.00 o'r goch nos Wener, Mawrth 7. Croeso cynnes i bawb.

CIC

Gan ei bod yn hanner tymor ni fydd CIC yn cael ei gynnal nos Wener nesaf, ond mae rhai o'r ieuenctid yn mynd i'r Bala i'r cwrs ieuenctid o nos Wener hyd ddydd Sul. Dymunwn yn dda iddyn nhw gan obeithio y byddan nhw'n mwynhau'r cwrs hwn eto.

Tacluso Capel Coch

Er mwyn cael rhywfaint o drefn mae angen tacluso rhywfaint ar y dodrefn a'r lluniau ac ati yn Capel Coch ar gyfer gwerthu'r capel. Os oes gennych amser ac yn awyddus i helpu, rydym am roi ychydig oriau i'r gwaith yr wythnos hon. Dowch i'r festri erbyn 10.00 o'r gloch fore Mercher, Chwefror 26, os gallwch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Mawrth 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr John Roberts

Adroddiad

Mae adroddiad Blyneddol Capel Coch am 2013 wedi ei gyhoeddi erbyn hyn, a diolch am bob help i'w gyhoeddi a'i ddsbarthu.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Chwefror 24: Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Miss Karen Owen, Penygroes.

Dydd Sul, Mawrth 2: Gwasanaethir yn y ddwy oedfa, am 9.30 a 5.00 o'r gloch, gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mawrth 2: Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan y Parchg Richard O Jones.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 2: Ni fydd oedfa ond croeso i'r oedfaon yn Capel Coch.

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 2

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
Y Parchg Richard O Jones

Dim Ysgol Sul (Gwyliau Hanner Tymor)

Mawrth 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 580 - Dydd Sul, 23 Chwefror, 2014

Kiev

Hanes dychrynlyd o drist a gafwyd o Wcrain a'i phrifddinas Kiev yr wythnos ddiwethaf. Lladdwyd oddeutu 100 o bobl yno yng nghanol y protestiadau yn erbyn yr Arlywydd Viktor Yanukovich. Dechreuodd y protestiadau hynny ym mis Tachwedd y llynedd, a chyrraedd eu penllanw y dyddiau diwethaf hyn. Ac er i gytundeb o fath gael ei arwyddo ddydd Gwener rhwng y llywodraeth a'r gwrthwynebwyr, mae'n amlwg nad oedd mwyafrif y protestwyr yn fodlon â hwnnw. Erbyn ddoe, roeddent wedi meddiannu palas yr Arlywydd yn Kiev a'i orfodi i ffoi i ddinas arall, ac yn dal i alw am ei ymddiswyddiad wrth i'r cyn Brif-weinidog, Yulia Tymoshenko gael ei rhyddhau o gaethiwed mewn ysbyty.

Gobeitho'n fawr y daw heddwch i bobl Wcrain yn fuan, ac y ceir trefn gyfiawn a fydd yn rhoi sefydlogrwydd i'r wlad.

Roedd rhai o'r geiriau a glywyd gan bobl yr eglwys yn Kiev yn ddigon i'n sobri. Offeiriad Uniongred yw Nikolai Himaylo, a bu'n gweini ar rai o'r bobl a fu farw yn y ddinas ddydd Mercher. 'Rwy'n dyst,' meddai, 'i'r hyn sydd wedi dod yn wladwriaeth droseddol. Ni ellir maddau i Yanukovich. Mae'r bechgyn hyn yn marw dros ryddid.'

Ac meddai Alla Gedz, aelod o'r Eglwys Anglicanaidd yn Kiev, 'Nid wyf yn cael fy nychryn erbyn hyn wrth weld cyrff marw ... Rydym yn ddiolchgar iawn am eich gweddiau, oherwydd yng nghanol y chwyldro nid oes gennym heddwch goruwchnaturiol yn ein calonnau.'

Gweddiwn y bydd Duw yn rhoi i bobl Kiev ac Wcrain lonyddwch, ac y caiff cymod a chyfiawnder le amlwg wrth i'r bobl ail adeiladu eu gwlad ar seiliau cadarnach a thecach.

Mae'r geiriau a ddyfynnwyd yn rhoi i ni olwg ar brofiad rhai o Gristnogion y wlad. Gan fod yr offeiriad Nikolai Himaylo yn credu mai'r Arlywydd ei hun oedd wedi gorchymyn i'w luoedd ymosod ar y protestwyr ni allai feddwl am faddau iddo. Yn swm y bwledi ac yng nghanol y dioddefaint mae'n hawdd deall pam y dywedai'r fath beth, er bod yr Efengyl yn sôn am faddau hyd yn oed i elyn.

Ac mae'n hawdd cydymdeimlo ag Alla Gedz sy'n cyfaddef bod tangnefedd yn y galon yn brin yn y sefyllfa hon. Er iddi gredu bod Duw gyda hi, realiti pethau yw ei bod yn anodd profi'r tangnefedd yng ngwres y dydd.

Gall problemau ac anawsterau effeithio arnom. Ac er i ninnau gredu yn naioni a chariad Duw, nid oes gennym ni chwaith y gallu i wynebu popeth ein hunain. Ni fedrwn ohonom ein hunain faddau i bobl sy'n gwneud drwg i ni, ac ni ddaw tangnefedd yn rhwydd. Ni feiddiwn feirniadu'r offeiriad am fethu â maddau, na'r ferch am fod yn brin o dangnefedd, ond cydymdeimlwn â hwy yn eu hymateb gonest i'w dicter a'u poen. Boed i Dduw eu nerthu, a rhoi iddynt y tangnefedd na ddaw ond oddi wrtho ef, a'u galluogi yn y man hyd yn oed i faddau i'w gelynyddion yn enw Iesu.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad o'r newydd.

Byddaf yn arwain yr Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch ynghyd â'r oedfa am 5.00 o'r gloch.

Bydd Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Hughes.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Cwrs Ieuentid

Cynhelir Cwrs Ieuentid yng Ngholeg y Bala o nos Wener, Chwefror 28 hyd ddydd Sul, Mawrth 2. Mae'r manylion llawn gan Andrew Settatee. Mae rhai o'r ieuentid yn bwriadu mynd i'r cwrs hwn.

Pwyllgor Blaenoriaid

Cynhaliwyd Pwyllgor Blaenoriaid Capel Coch nos Lun diwethaf. Ymysg y pethau a drafodwyd oedd cadeiriau newydd ar gyfer y festri. Bu'n fwiad ers blwyddyn a mwy i gael cadeiriau, a phenderfynwyd mynd ymlaen i wneud hynny.

Cadeiriau

Ers y pwyllgor nos Lun cawsom dair cadair i'w gweld, a bydd angen dewis rhyngddynt yr wythnos hon er mwyn eu harchebu cyn i'r pris godi ddechrau mis Mawrth.

Felly, bydd cyfle i weld y cadeiriau heddiw. Mae angen dewis lliw'r sedd yn ogystal â phenderfynu pa un o'r dair cadair fydd orau.

Felly, mynnwch olwg arnyn nhw er mwyn i ni gael syniad prun sy'n plesio fwyaf. Mi fyddwn ni'n siwr o gael barn wahanol, ond gobeithiwn gael rhyw syniad am y gadair fwyaf addas.

Noson Ynys Manaw

Cafodd aelodau CIC Llanberis a CIC Llanrug gyfle i gyfarfod â phobl ifanc o Ynys Manaw mewn cyfarfod arbennig a drefnwyd gan Andrew Settatee yn Y Sefydliad Coffa yn Llanrug nos Iau. Cafwyd noson o denis bwrdd a snwcer, a chyfle i gael hanes y criw o Ynys Manaw ac i'w holi. Diolch i Andrew am drefnu.

Casgliad Genhadaeth

Yn ystod mis Mawrth gwneir y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwirydd, Eglwys Bresbyteriaid Cymru. Byddwn yn ddiolchgar am bob rhopdd at y casgliad hwn fel arfer, a gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Chwefror 24 yng nghwmni Karen Owen, Penygroes. Croeos cynnes i bawb.

'Capel Got Talent'

Cafwyd noson arbennig o dda yn 'Capel Got Talent' a drefnwyd gan ieunctid Ysgol Sul Capel Coch ac a gynhaliwyd yn y festri echnos.

Roedd amrywiaeth mawr o eitemau a phob un yn arbennig o dda:
Sgets: Rhiannon a Guto
Cân: Deio
Jocs: Jac
Cân: Cadi
Sgwrs Power Point am adar: Ioan
Clown: Tomos
Deuawd: Medi a Cadi
Crefft: Jamie a Marga
Piano: Aled
Cân: Elain

Roedd y beirniad, Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) wedi ei blesio'n fawr, a chawsom sylwadau ganddo ar ôl pob eitem, ac roedd yn canmol pawb a gymerodd ran.

Ar ddiwedd y cystadlu cafwyd paned a bara brith a bisgedi, a chyfle i brynu llyfrau ail law ac i ddyfalu sawl darn o basta oedd mewn jar.

Roedd yr egwyl yn gyfle i'r beirniad benderfynu pwy fyddai'n ennill. Roedd yn anodd iawn penderfynu gan fod y safon yn uchel a'r eitemau mor wahanol i'w gilydd. Ond cyhoeddodd Arwel mai'r enillydd eleni oedd Deio Roberts, a ganodd gân John ac Alun, 'Y Chwarelwr'. Llongyfarchiadau mawr iddo. A phan gyhoeddwyd canlyniad y gystadleuaeth basta gwelwyd mai Deio a enillodd honno hefyd!

Diolch i'r hogiau am drefnu'r noson ac a fu'n brysur yn paratoi'r llwyfan ac yn gofalu am dderbyn yr arian wrth y drws ac am y stondin lyfrau a'r pasta. Diolch hefyd i bawb a fu'n eu helpu trwy weini'r banded, ac i Mrs Madge Davies am y bara brith.

Diolch wrth gwrs i bawb a ddaeth yno i gefnogi ac i fwynhau hwyl y noson, ac i Arwel am ddod atom i feirniadu. Ond diolch yn fwy na dim i bawb a gymerodd ran ac a wnaeth y noson yn un mor lwyddiannus. Roedd y gynulleidfa wedi mwynhau pob eitem yn fawr iawn.

Cafwyd £106.10 at waith CIC Capel Coch, a bydd hwn yn help mawr un ai i brynu offer i'r clwb neu i helpu at gostau gweithgaredd arbennig. Caiff aelodau CIC eu hunain benderfynu sut orau i'w ddefnyddio. Diolch am eich cefnogaeth.

Cymorth Cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol eisoes yn dechrau trefnu ar gyfer yr wythnos o gasglu arian o ddrws i ddrws yn ystod y mis hwnnw.

Mai 11-17 fydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bwriadwn wneud y casgliad arferol unwaith eto.

Os medrwch roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos honno i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwn i Gronfa Gronyn. Mae pob rhodd yn help i dalu am ei argraffu bob Sul. Derbyniwyd sawl rhodd ers dechrau'r flwyddyn.

Gobeithio bod Gronyn yn dal i gyflawni ei bwrpas, a'ch bod yn cael budd ohono. Ymhen 20 rhifyn arall, os byw ac iach, bydd Gronyn wedi cyrraedd rhifyn 600.